# Swydd-ddisgrifiad

| Cyfarwyddiaeth: | Adnoddau | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Gwasanaeth ac Adran:** | Tai ac Iechyd y Cyhoedd, Is-adran Bwyd a Diogelwch | | |
| **Rheolwr yr Uned:** | Rheolwr Bwyd a Diogelwch, Trwyddedu, Iechyd Porthladdoedd a Safonau Masnach | | |
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | | |
| **Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl:** | RT60A | | |
| **Rhif y Swydd:** | PL.64276 | **Gradd** | 9 (SCP 30-34, £38,223 - £42,403) |

| Crynodeb o'r Rôl | |
|---|---|
| **Yn atebol i'r:** | Arweinydd Tîm, Bwyd a Diogelwch, Iechyd Porthladdoedd a Safonau Masnach |
| **Diben y Swydd:** | 1. Ymgymryd â dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth a gorfodi ar gyfer materion diogelwch bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus a gludir gan fwyd.<br>2. Cyflawni dyletswyddau technegol, cyfreithiol a gweinyddol sy'n ymwneud â deddfwriaeth Diogelwch Bwyd ac Iechyd yr Amgylchedd.<br>3. Mae'r swydd yn un gyffredinol o fewn yr Adran a gall deiliad y swydd weithio mewn unrhyw faes priodol o fewn yr Adran a chynnal unrhyw ymweliadau neu archwiliadau sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Adran. |
| **Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am y canlynol:** | 1. Cynnal ymweliadau ac archwiliadau, gan gymryd camau gweithredu bo angen, i sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol.<br>2. Paratoi adroddiadau archwilio ac adroddiadau ar gyfer uwch swyddogion ac Aelodau etholedig lle bo angen.<br>3. Paratoi tystiolaeth a mynd i'r llys os oes achosion cyfreithiol yn codi unrhyw archwiliad, ymweliad neu gamau gweithredu.<br>4. Cyfrannu at drefn weithio gorfforaethol yr Adran drwy gymryd rhan mewn gweithgorau a chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.<br>5. Cyflawni targedau perfformiad y cytunwyd arnynt gyda'r Arweinydd T<br>6. Gwneud defnydd llawn o gronfa ddata wybodaeth gyfrifiadurol yr Adran i gofnodi, monitro a rheoli llwyth gwaith.<br>7. Cyfrannu at ddatblygiad cynllun gwaith y tîm.<br>8. Ymgymryd â'r cyfrifoldebau iechyd a diogelwch personol a geir o fewn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb. 1974 a bod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles cydweithwyr.<br>9. Helpu i ddatblygu mentrau |

# Manyleb Person

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Adnoddau** | | |
| **Maes Gwasanaeth ac Adran:** | Tai ac Iechyd y Cyhoedd, Is-adran Bwyd a Diogelwch | | |
| **Rheolwr yr Uned:** | Rheolwr Bwyd a Diogelwch, Trwyddedu, Iechyd Porthladdoedd a Safonau Masnach | | |
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | | |
| **Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl:** | RT60A | | |
| **Rhif y Swydd:** PL.64276 | | **Gradd** | 9 (SCP 30-34, £38,223 - £42,403) |

| **Maen Prawf y Rôl Rhif 1** | **Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant** |
|---|---|
| **Hanfodol** | Rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd neu ddiploma mewn Iechyd yr Amgylchedd a bod yn aelod o Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Wedi cofrestru gyda Bwrdd Cofrestru Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd (EHORB) |
| **Dymunol** | Yn gymwys i gyflawni'r ystod o ddyletswyddau sy'n ofynnol yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd cyfredol (Cymru) |
| **Tystiolaeth** | Rhaid dangos pob tystysgrif yn y cyfweliad er mwyn profi eu bod yn ddilys |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 2** | |
| **Hanfodol** | 1. Gwybod beth yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd, yn enwedig deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a rheoli clefydau heintus.<br>2. Meddu ar sgiliau TG da, yn derbyn egwyddorion technoleg newydd a dangos gwybodaeth o'r manteision ddaw yn ei sgil.<br>3. Dangos dealltwriaeth o rôl Aelodau a'r berthynas rhwng swyddogion/Aelodau mewn llywodraeth leol.<br>4. Person sy'n gwneud penderfyniadau yn hyderus gyda'r gallu i weithredu yn flaengar, yn ddyfeisgar a chyda gweledigaeth a hynny heb fawr ddim goruchwyliaeth.<br>5. Y gallu i addasu i newid ac i newidiadau mewn anghenion hyfforddi yng |

